# The Wildlife Trust
## South and West Wales
## De a Gorllewin Cymru

# CWM CLETTWR
# CEREDIGION



Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

**The Wildlife Trust of South and West Wales** works to conserve *all* forms of wildlife. We manage nearly 100 nature reserves comprising woodlands, meadows, moors, marshes, and islands such as Skomer. We campaign on your behalf against damaging development, provide advice on your land management needs and help people of all ages to understand and enjoy our wildlife.

**You can help**….**Volunteers are essential** to the Trust. Whatever your interest and ability your spare time is valuable to us. **Members are vital** in supporting our work. Your contribution makes the Trust even more effective and every member strengthens the voice of the Trust. Join today if you want to help save local wildlife.

**For more details of volunteering or joining as a member, call your nearest office;**

Tondu, Bridgend **01656 724100**
Cilgerran, Cardigan **01239 621600**
Or email: **info@welshwildlife.org**

**Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru** yn gweithio i warchod *pob* math o fywyd gwyllt. Rydym yn rheoli bron i 100 o warchodfeydd natur sy'n cynnwys coetiroedd, dolydd, rhosydd, corsydd ac ynysoedd fel Sgomer. Rydym yn ymgyrchu ar eich rhan yn erbyn datblygiadau niweidiol, yn darparu cyngor ynghylch eich anghenion rheoli tir ac yn helpu pobl o bob oed i ddeall a mwynhau ein bywyd gwyllt.

**Gallwch chi helpu**….**mae gwirfoddolwyr yn hanfodol** i'r Ymddiriedolaeth. Waeth beth yw eich diddordeb a'ch gallu, mae eich amser sbâr yn werthfawr i ni. **Mae aelodau'n hanfodol** i gefnogi ein gwaith. Mae eich cyfraniad chi yn gwneud yr Ymddiriedolaeth yn fwy effeithiol fyth ac mae pob aelod yn cryfhau llais yr Ymddiriedolaeth. Ymunwch â ni heddiw os am helpu i achub bywyd gwyllt lleol.

**Am fanylion pellach am wirfoddoli neu am ymuno fel aelod, ffoniwch eich swyddfa agosaf;**

Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr **01656 724100**
Cilgerran, Aberteifi **01239 621600**
Neu e-bost: **info@welshwildlife.org**

This leaflet was produced with support from **The Megan Jones Legacy**

Cynhyrchwyd y daflen hon gyda chefnogaeth gan **Cymynrodd Megan Jones**

**Reserve Description** The 16.4ha reserve can be divided into areas: regenerating broadleaf woodland with heath pockets; a section of mature broadleaf woodland that is notified SSSI and some remnant Hemlock plantation. The Afon Cletwr splits the reserve in two and gives it its steep sides.

**Directions to the reserve** 16 km northeast of Aberystwyth, 13 km southwest of Machynlleth. Heading north through Tre'r-ddôl, take the small road on the right just after Soar Chapel (SN659922) and bridge. Off road parking on the right near the top of the hill. The south side of the reserve can also be accessed from the bridleway behind the chapel in Tre'r-ddôl.

**Buses** X28/T2 Aberystwyth to Machynlleth regular service stops in Tre'r-ddôl.

**Access notes** Public and permissive footpaths traverse the reserve but are very steep in places, it is not accessible to wheelchairs.

**Your safety** If walking alone, please tell someone where you are and what time to expect you back. Wear appropriate clothing and footwear, planning ahead for changes in the weather. An Ordnance Survey map is always useful for additional information. Please follow the countryside code.

**Disgrifiad o'r warchodfa** Mae modd rhannu'r warchodfa 16.4ha yn wahanol ardaloedd: coetir llydanddail sy'n aildyfu gyda phocedi o rostir; darn o goetir llydanddail aeddfed a ddynodir yn SoDdGA. a gweddillion planhigfa sbriws-hemlog. Mae afon Cletwr yn hollti'r warchodfa yn ddwy ran gan roi iddi ei hochrau serth.

**Sut i gyrraedd y gwarchodfeydd** 16km i'r gogledd-ddwyrain o Aberystwyth, 13km i'r de-orllewin o Fachynlleth. Gan anelu am y gogledd drwy Dre'r-ddôl, cymerwch y ffordd fach ar y dde heibio i Gapel Soar (SN659922) ac yn syth ar ôl y bont. Ceir lle i barcio oddi ar y ffordd ar y dde ger pen y rhiw. Gellir mynd at ochr ddeheuol y warchodfa o'r llwybr ceffylau y tu ôl i'r capel yn Nhre'r-ddôl.

**Bysus** Mae gwasanaeth rheolaidd yr X28/T2 rhwng Aberystwyth a Machynlleth yn stopio yn Nhre'r-ddôl.

**Nodiadau mynediad** Mae llwybrau cyhoeddus a chaniataol yn croesi'r warchodfa ond maent yn serth iawn mewn mannau. Nid yw'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

**Eich diogelwch** Os yn cerdded ar eich pen eich hun, cofiwch ddweud wrth rywun ble ydych chi a faint o'r gloch i'ch disgwyl yn ôl. Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas, gan gynllunio ymlaen llaw ar gyfer unrhyw newid yn y tywydd. Mae map Arolwg Ordnans o ddefnydd bob amser am wybodaeth ychwanegol. Cadwch at y cod cefn gwlad os gwelwch yn dda.



The Wildlife Trust of South and West Wales manages 16ha of land in the Clettwr valley, just east of Tre'r-ddôl, known as Cwm Clettwr Nature Reserve. It is part of a larger Site of Special Scientific Interest (SSSI): Coed Cwm Clettwr is noted for its ancient semi-natural broad-leaved woodland dominated by sessile oak. About 140 species of flowering plants have been recorded and the woodland is important for the variety of ferns, lichens and mosses it supports including some rarities.

Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn rheoli 16ha o dir yng Nghwm Cletwr, ychydig i'r dwyrain o Dre'r-ddôl a elwir yn Warchodfa Natur Cwm Cletwr. Mae'n rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) mwy o faint o'r enw Coed Cwm Cletwr. Mae'r safle hwn yn nodedig am ei goetir llydanddail lled-naturiol hynafol sy'n cynnwys coed derw digoes yn bennaf. Mae tua 140 o rywogaethau planhigion blodeuol wedi cael eu cofnodi ac mae'r coetir yn bwysig o ran yr amrywiaeth o redyn, cennau a mwsoglau y mae'n eu cynnal gan gynnwys rhai mathau prin.

Small mammals, including dormice, and bats are found here; butterflies are seen throughout, as well as moths, dragonflies and damselflies. Several species of bird breed within the wood. The River Cletwr runs through the woodland adding to the humid conditions and provides a different habitat for more species.



Dormouse Pathewod © Brian Matthews

Ymhlith y mamaliaid bychain sydd yma mae pathewod ac ystlumod ac mae ieir bach yr haf i'w gweld ledled y warchodfa, yn ogystal â gwyfynod, gweision neidr a mursennod. Mae sawl rhywogaeth adar yn nythu yn y coed. Mae afon Cletwr yn rhedeg drwy'r coetir gan ychwanegu at yr amodau llaith ac yn darparu cynefin gwahanol ar gyfer mwy o rywogaethau.

Management work is mostly carried out by volunteers and includes: keeping the paths open; controlling invasive species; cutting back birch regrowth.

Gwirfoddolwyr sy'n gwneud y gwaith rheoli gan mwyaf ac mae'n cynnwys cadw'r llwybrau'n agored, rheoli rhywogaethol goresgynnol a thocio aildyfiant y coed bedw.



Volunteers clearing outcrop © WTSWW Gwirfoddolwyr yn clirio carreg frig

Bird and dormouse boxes are spread throughout the woodland and are monitored. Their use often overlaps with birds building nests in the dormouse boxes and dormice in the bird boxes!

Mae blychau adar a phathewod yn britho'r coetir ac yn cael eu monitro. Yn aml, bydd eu defnydd yn gorgyffwrdd, gydag adar yn adeiladu nythod ym mlychau'r pathewod a phathewod ym mlychau'r adar!



Dormouse boxes Blychau pathewod © WTSWW

The site was managed as coppice prior to being clear felled during the Second World War. The north side was grazed until 1960, when it was planted with conifers. Oak and birch have since replaced them. Archaeological features associated with past metal mine activities occur throughout the wood.

Byddai'r safle'n cael ei reoli fel coedlan cyn i'r coed gael eu cwympo'n gyfan gwbl yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafodd yr ochr ogleddol ei phori tan 1960 pryd y cafodd ei phlannu gyda chonwydd. Ers hynny, mae derw a bedw wedi eu disodli. Ceir hefyd nodweddion archaeolegol drwy'r coed sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cloddio metelau yn y gorffennol.

Future works will improve the age structure, woodland density and understorey. The remaining hemlock will be removed.

Bydd gwaith yn y dyfodol yn gwella fframwaith oedran a dwysedd y coed a'r isdyfiant. Bydd gweddill y sbriws-hemlog yn cael ei glirio.



View along the valley Golygfa ar hyd y cwm © WTSWW

The reserve is home to a nationally rare and critically endangered lichen, a sub-species of wood stitchwort, known at only one other site in Ceredigion and just nine in Britain, and the rare toothwort, found at only two other places in the county. It is also a significant site for invertebrates.

Mae'r warchodfa'n gartref i gen sy'n brin yn genedlaethol ac sydd mewn perygl dirfawr; isrywogaeth serenllys y coed na wyddys amdano ond mewn un safle arall yng Ngheredigion, a dim ond mewn naw safle ym Mhrydain, ynghyd â'r deintlys prin a geir mewn dau le arall yn unig yn y sir. Mae hefyd yn safle pwysig i infertebratau.

www.welshwildlife.org




View looking west Golygfa tua'r gorllewin © WTSWW


Cwm Clettwr is an important site for breeding pied flycatchers. Other breeding birds include dippers, grey wagtails, nuthatches, redstarts, sparrowhawks, wood warblers, tawny owls, great tits and blue tits. Lesser spotted woodpeckers have been seen on site and greater spotteds are often heard.



Safle pwysig yw Cwm Clettwr ar gyfer gwybedogion brith sy'n nythu. Mae adar nythu eraill yn cynnwys trochwyr, y siglen lwyd, delor y cnau, tingochiaid, y cudyll glas, telor y coed, y dylluan frech, y titw mawr a'r titw tomos las. Mae'r gnocell fraith leiaf wedi'i gweld ar y safle ac mae'r gnocell fraith fwyaf yn aml i'w chlywed.



© WTSWW
Clearance of Western hemlock Clirio sbriws-hemlog y Gorllewin







Woodland bridge Pont yn y coed © WTSWW

Speckled wood butterflies fly along the paths throughout the wood. Meadow browns, orange tips, ringlets, green veined whites and peacock butterflies along with several dragonflies are also seen.



Mae gweirlöynnod brych yn hedfan ar hyd y llwybrau drwy'r coed. Mae gweirlöynnod y ddôl, gwynion blaen oren, gweirlöynnod y glaw, gwynion brithwyrdd a mentyll peunod hefyd i'w gweld ochr yn ochr â sawl gwas y neidr.



Riverside path Llwybr ar lan yr afon © WTSWW